

## ❖ AMGYLCHYNWYD FI GAN DON O DANGNEFEDD

*Simeon***Darllen: Luc 2:25–35****Myfyrdod**

Amgylchynwyd fi gan don o dangnefedd,  
ymchwydd o heddwch yn llenwi fy enaid,  
tangnefedd y tu hwnt i bob deall –  
yno, yn fy mreichiau,  
y Meseia,  
yno, yn wyneb crychiog  
y plentyn bregus,  
yr oedd cyflawniad addewid Duw i'w bobl.  
Ni allaf lawn fynegi gwefr yr eiliad honno i mi,  
oherwydd bu cyfnodau yn fy mywyd  
pan fu fflam y ffydd yn llosgi'n isel.  
Nid amau a welwn y Meseia â'm llygaid fy hun,  
ond rhywbeth dyfnach a mwy difrifol na hynny;  
rhywbeth a âi yn ôl i eiriau'r proffwyd  
ynglŷn â bod yn oleuni i'r cenhedloedd,  
a dwyn gogoniant i Dduw drwy ein bywyd a'n tystiolaeth.  
Yr oeddwn wedi credu erioed;  
bu'r weledigaeth yn tanio fy nychymyg a'm ffydd,  
ond yn ddiweddar llosgodd y fflam yn isel  
gan gymaint y gwirioneddau creulon o'm cwmpas.  
Y gwir amdani oedd ein bod wedi dirywio'n hen genedl fewnblyg,  
yn poeni mwy amdantom ein hunain nag am y byd mawr y tu allan;  
yn wir yr oedd ein gorwelion yn cyfyngu fwyfwy bob dydd.  
Yr oedd yn hawdd deall hyn  
o gofio'r gorthrwm a ddioddefwyd dros y canrifoedd,  
ond nid oedd gwerthfawrogi hynny yn gwneud pethau'n haws  
nac yn ffynhonnell gobaith i'r dyfodol.  
A allai pethau newid, tybed?  
A oedd gobaith aildanio'r brwdfrydedd,  
a'r syniad o fod yn rhan o bwrpas dwyfol,  
yn tystio i'w ogoniant,  
neu ynteu breuddwyd oedd y cyfan?  
Ond y diwrnod hwnnw, yn y deml, newidiodd y cyfan –  
cyfiawnhawyd y ffydd,  
gwireddwyd y gobeithion –  
oherwydd gwyddwn bellach y tu hwnt i bob amheuaeth  
fod Duw wedi cadw ei addewid:  
roedd ei was yno yn fy mreichiau,  
yr un oedd i ddod â goleuni i'r byd  
a iachawdwriaeth i bawb.  
Gwelais ef â'm llygaid fy hun,  
cyffyrddais ef â'm dwylo fy hun,  
ac wedi hynny gallwn farw'n hapus,  
fy llawenydd yn gyflawn,  
fy ffydd wedi ei adfer,  
heddwch dan fy mron.

## Gweddi

Arglwydd grasol,  
addewaist y deuai dy deyrnas  
yng nghyflawnder yr amser;  
teyrnas heb ryfel a thrais,  
heb gasineb ac anghyfiawnder,  
heb ddioddefaint a phoen,  
a phawb yn byw mewn heddwch.  
Diolch am y weledigaeth sy'n ysbrydoliaeth i ni,  
a hiraethwn am y dydd  
y gwireddir y freuddwyd.  
Ond, Arglwydd, cyfaddefwn ein hamheuon,  
a hynny yn wyneb pechod a dioddefaint ein byw,  
y llygredd,  
y gorthrwm a'r trais.  
Dysg i ni ddal i gredu.  
Helpa ni i ymddiried yn dy addewid  
y cyflawnir dy ewyllys  
ac y daw dy deyrnas.  
Yn enw Iesu Grist.

**Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies**